Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD:	**3 Mehefin 2021**
LLEOLIAD:	O bell drwy fideo-gynadledda
TEITL:	Diweddariad ar Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol y Cyngor
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Darparu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio â diweddariad ar Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol y Cyngor dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a diweddariad ar ymateb y Cyngor i Gwestiynau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 drafft.

CEFNDIR:

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021, yn rhoi Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ('PCC') i awdurdodau lleol cymhwysol. Gall awdurdodau ddefnyddio'r PCC i wneud pethau at ddiben masnachol ac mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar y Rheoliadau, sy'n gofyn bod awdurdodau'n paratoi achos busnes cyn defnyddio'r PCC yn y modd hwn, yn ogystal ag ar y cynnig bod cymunedau cyngor sy'n gymwys i ymarfer y PCC yn cael eu darparu â'r pŵer i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol.
(Mae Deddf 2021 ar gael ar https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/introduction/enacted).

Mae Gorchymyn 2021 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) ('Gorchymyn Cychwyn 1af'), a wnaed ar 3 Mawrth 2021, yn darparu ar gyfer dod â'r PCC i rym ar gyfer prif gynghorau ar 1 Tachwedd 2021, a chynghorau tref a chymuned ar 5 Mai 2022. (Mae'r Gorchymyn Cychwyn 1af ar gael ar https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/231/contents/made).

Awdurdodau Lleol a'r PCC – aa24-29, Pennod 1, Rhan 2, Deddf 2021

Adran 24 Deddf 2021: mae'r PCC yn caniatáu i *'awdurdodau lleol cymhwysol'* (prif gynghorau h.y. cynghorau sir, a chynghorau cymunedol cymwys ac ati) i wneud unrhyw beth y gall unigolion ei wneud, nad ydynt yn debygol o fod wedi'i wneud o'r blaen, gan gynnwys:

(a) Unrhyw le yng Nghymru neu yn rhywle arall;
(b) At ddibenion masnachol neu fel arall am ffi, neu heb fod am ffi;
(c) Er budd yr awdurdod, ei ardal neu bersonau sy'n preswylio neu'n bresennol yn ei ardal, neu fel arall .

Mae hefyd yn werth nodi y gall Gweinidogion Cymru, dan A.95 Deddf Llywodraeth Leol 2003 ('Deddf 2003) (y Pŵer i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol), wneud gorchymyn yn awdurdodi rhai awdurdodau i fasnachu yn unrhyw rai o'u swyddogaethau arferol drwy gwmni. Dan A.96 (1) Deddf 2003, gall Gweinidogion Cymru osod amod ar ymarfer y pŵer i fasnachu, a rhaid i awdurdodau yng Nghymru roi ystyriaeth i ganllawiau perthynol gan Weinidogion Cymru (A.96 (2) Deddf 2003). Mae'r diffiniadau o ran pa fathau o awdurdodau y mae'r adrannau hyn yn berthnasol ar eu cyfer wedi newid nifer o weithiau, ond mae cynghorau cymuned yn dal i fod wedi'u cynnwys yn y diffiniad, ac ers 1 Ebrill 2021, mae Rheoliadau 2021 Deddf Llywodraeth

Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) yn datgan bod y canlynol hefyd wedi'u cynnwys

• cyngor sir neu gyngor sir bwrdeistrefol yng Nghymru
• awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru
• awdurdod tân ac achub yng Nghymru, a gyfansoddwyd gan gynllun dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n berthnasol iddo.

Ffiniau/cyfyngiadau'r PCC

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol :

(a) **A.25 Deddf 2021:** Ni ellir defnyddio'r PCC pan fydd yna gyfyngiad neu amod yn y ddeddfwriaeth bresennol, neu yn unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n gosod cyfyngiad o'r fath e.e. deddfwriaeth mewn perthynas â gwasanaethau statudol, ffioedd a chodi tâl, doethineb ariannol neu, mewn perthynas â phrif gynghorau, ffurf eu hawdurdodau o ran cyfyngiadau gweithredol mewn gwahanol ffyrdd, ac ni fydd modd defnyddio'r PCC i oresgyn y cyfyngiadau hynny.

(b) **A.26 Deddf 2021:** Yn cynnwys amodau ar godi tâl wrth ymarfer y PCC.

(c) **A.27(1) Deddf 2021:** Er y gall awdurdodau ddefnyddio'r PCC i wneud rhywbeth at ddiben masnachol drwy gwmni, gellir ond gwneud hyn petai'r awdurdod hefyd yn dibynnu ar y PCC i wneud y peth hwnnw at ddiben anfasnachol (gweler A.95 Deddf 2003 uchod, sy'n gosod pŵer awdurdod i fasnachu yn ei swyddogaethau arferol).

(d) **A.27(2) Deddf 2021:** Pan ddefnyddir y PCC gan awdurdod lleol cymhwysol at ddiben masnachol, rhaid gwneud hynny drwy gwmni.

(e) **A.27(3) Deddf 2021:** Ni chaiff yr awdurdod gyflawni gweithgaredd ar gyfer rhywun at ddiben masnachol, os yw'n ofynnol, yn ôl deddfwriaeth, ei fod yn cyflawni'r gweithgaredd hwnnw.

(f) **A.27(5) Deddf 2021:** Rhaid cadw at ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar ymarfer y PCC i wneud unrhyw beth at ddiben masnachol.

Mae A.28 Deddf 2021 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i :

1. Diddymu/diwygio darpariaethau statudol sydd, yn eu barn nhw, yn atal awdurdodau lleol cymhwysol rhag defnyddio'r PCC, neu'n eu hatal wrth iddynt ddefnyddio'r PCC ;
2. Cael gwared ag unrhyw orgyffwrdd rhwng y PCC â phŵerau eraill (ond nid trwy adolygu neu gwtogi ar y PCC)
3. Cyfyngu ar beth all awdurdod lleol cymhwysol ei wneud dan y PCC ; a
4. Gosod amodau ar ddefnydd o'r PCC.

Cynghorau Cymuned Cymwys - aa30-37, Pennod 2, Rhan 2, Deddf 2021

Mae ***A.30 Deddf 2021*** yn darparu meini prawf cyngor cymuned '*cymwys'*, gan gynnwys:

- Bod o leiaf 2/3 o holl aelodau'r cyngor wedi'u hethol, un ai mewn etholiad cyffredin neu is-etholiad ;
- Bod clerc y cyngor cymuned yn meddu ar unrhyw gymhwyster/disgrifiad o gymhwyster all gael ei bennu gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau (bydd y rheoliadau drafft sy'n nodi'r cymwysterau arfaethedig yn destun ymgynghoriad ar wahân) ; a
- Bod y cyngor cymuned wedi derbyn barn dau archwiliwr digymhwyster gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru, am ddwy flynedd ariannol ddilynol, a rhaid bod y farn archwiliwr digymhwyster ddiwethaf wedi'i derbyn yn ystod y 12 mis cyn y dyddiad y cafodd penderfyniad y cyngor ei basio.

Mae **A.34 Deddf 2021** yn darparu ar gyfer cynghorau cyngor cyffredin a sefydlwyd ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio.
Mae **A.35 Deddf 2021** yn darparu ar gyfer ychwanegu, dileu neu newid amodau cymhwysedd, ac mewn rhai amgylchiadau, yn darparu ar gyfer terfynu cymhwysedd cyngor cymuned.

Bydd ***Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006*** ('Gorchymyn 2006') dan weithrediad Deddf 2021, yn cael ei ail-lunio a'i ddiweddaru i gywiro'r cyfeiriad at awdurdodau, sef newid technegol. Yn ymarferol, mae'r Gorchymyn yn rhoi awdurdod i awdurdodau (ar wahân i gynghorau cymuned) i wneud, at ddiben masnachol, unrhyw beth maent wedi'u hawdurdodi (ond ddim dan ofyniad) i'w wneud at y diben o gyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau arferol. O ganlyniad, gallant fasnachu ymhob gwasanaeth ar wahân i'r rhai y mae'r awdurdod dan ymrwymiad cyfreithiol i'w darparu.

Mae Amodau Gorchymyn 2006 yn cynnwys y canlynol :

(a) Cyn ymarfer y pŵer, mae gofyn bod yr awdurdod yn paratoi ac yn cymeradwyo achos busnes (gweler isod) i gefnogi'r ymarfer pŵer arfaethedig.
(b) Rhaid i'r awdurdod adennill costau unrhyw lety, nwyddau, gwasanaethau, staff neu unrhyw beth arall a gyflenwir ganddynt i gwmni mewn perthynas ag unrhyw gytundeb neu drefniant i hwyluso'r ymarfer pŵer.

Mae Gorchymyn 2006 hefyd yn diffinio 'achos busnes' fel '*datganiad cynhwysfawr ynghylch :*
(a) amcanion y busnes;
(b) y buddsoddiad ac unrhyw adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion;
(c unrhyw risgiau y gall y busnes eu hwynebu a pha mor sylweddol yw'r risgiau hynny; a
(d) canlyniadau ariannol disgwyliedig y busnes, ynghyd ag unrhyw ganlyniadau eraill perthnasol y disgwylir i'r busnes eu cyflawni'

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Ar 22 Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad i gasglu barn ar:
(a) Yr amodau rhagnodol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni wrth ymarfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol;
(b) Ail-lunio'r gorchymyn masnachu a galluogi "cynghorau cymuned cymwys" i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol;
(c) Y Cynnig i ymestyn defnydd o'r Rheoliadau drafft hyn i gynghorau cymuned cymwys pan fydd y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn cael ei roi i'r awdurdodau hyn ym Mai 2022.
(Ymgynghoriad ar gael ar: https://gov.wales/consultation-local-authority-power-trade-html
Rheoliadau Drafft ar gael ar: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-03/annex-a-draft-general-power-of-competence-regulations-2021_0.pdf).

Mae Datganiad Effaith Rheoleiddiol Drafft wedi'i ddatblygu hefyd ar ôl ystyried y ddau opsiwn:
Opsiwn 1: Cadw pethau fel y maent.
Opsiwn 2: Llunio Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 fel y'u cyflwynir yn y Rheoliadau drafft.
(Datganiad Effaith Rheoleiddiol Drafft ar gael ar:
(https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-03/annex-b-general-draft-regulatory-impact-assessment_0.pdf).

Mae yna fwriad hefyd i gyhoeddi canllawiau yn gosod y disgwyliadau, i gynorthwyo cynghorau i weithredu'r gofynion wrth ymarfer y PCC at ddiben masnachol.

Y Sefyllfa Bresennol
Cafodd y dogfennau ymgynghori eu dosbarthu i holl Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol y Cyngor ac i aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 13 Ebrill 2021, ynghyd â chyfle i gyflwyno sylwadau. Yn ogystal, cynhaliwyd Gweithdy ar gyfer Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 27 Ebrill 2021 i roi cyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau.

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro wybod i'r Grŵp Arweinyddiaeth am yr Ymgynghoriad ar 14 Ebrill 2021.

Mae Ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad yn cael ei baratoi (mae'r cyfnod Ymgynghori'n dod i ben ar 11 Mehefin 2021) ac mae Ymateb y Cyngor, a fydd yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau, ynghlwm (gweler **Atodiad 1).**

Bwriad Llywodraeth Cymru yw dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad dros yr haf ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau cyn llunio'r rheoliadau drafft yn yr hydref. Yna bwriedir eu bod yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2021, i gyd-fynd â chyflwyno'r PCC ar gyfer prif gynghorau.

Bwriedir diwygio'r Rheoliadau drafft rhwng Tachwedd 2021 a Mai 2022 er mwyn ymestyn eu defnydd i gynghorau cymuned cymwys.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Naddo
Os naddo, esboniwch pam
Crynodeb: *Nid yw'r adroddiad hwn yn ymwneud â newid polisi neu strategeth.*

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

Cyfle i wneud sylwadau ar y Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 drafft, am fod Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ymwneud â'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ar gyfer Awdurdodau Lleol, a bod Rhan 2 Pennod 2 o'r Ddeddf yn ymwneud â Phŵer Cymhwysedd Cyffredinol Cynghorau Cymuned cymhwysol. Bydd perfformiad a llywodraethu'n cael effaith ar anghenion tymor byr a hirdymor.

Hirdymor:

Integreiddio: Annog cyfrifoldeb byd-eang drwy roi cyfle i wneud sylwadau ar Reoliadau drafft (lles economaidd yn sgil gwella perfformiad a llywodraethu dan Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Cydweithio: Gyda Llywodraeth Cymru a Rhanddeiliaid.

Cynnwys: Amherthnasol o bersbectif y Cyngor ond potensial o berspectif Llywodraeth Cymru i gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn nodau Llesiant yn yr Ymgynghoriad.

Atal:	Gall y cyfle i wneud sylwadau ar Reoliadau drafft arwain at newidiadau positif o ran llywodraethu, atal problemau rhag gwaethygu, a helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd ag amcanion Lles drwy wella perfformiad a dulliau llywodraethu.

ARGYMHELLION:
Er gwybodaeth: darparu'r Pwyllgor â diweddariad ar yr Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 drafft ynghylch Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a darparu'r Pwyllgor ag ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLION: Monitro dulliau llywodraethu'r Awdurdod Lleol yn unol â newidiadau deddfwriaethol.

Enw Cyswllt:	Elin Prysor
Teitl:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro
Acronymau:	Amherthnasol
Dyddiad yr Adroddiad:	12/05/2021
Atodiadau:	**Atodiad 1**: Ymateb Cyngor Sir Ceredigion i'r Ymgynghoriad
Papurau cefndir	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/introduction/enacted Gorchymyn 2021 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed): https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/231/contents/made). Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 drafft (a'r cynnig bod cynghorau cymuned sy'n bodloni meini prawf penodol yn cael eu darparu â phŵer i fasnachu): https://gov.wales/consultation-local-authority-power-trade-html Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 drafft: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-03/annex-a-draft-general-power-of-competence-regulations-2021_0.pdf. Datganiad Effaith Rheoleiddiol Drafft: (https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2021-03/annex-b-general-draft-regulatory-impact-assessment_0.pdf).
Pwerau statudol:	

Atodiad 1

Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

Eich enw: Cyngor Sir Ceredigion

Sefydliad (os yn berthnasol): Cyngor Sir Ceredigion

Ebost / rhif ffôn: Dan ofal: Hannah.Rees@ceredigion.gov.uk
01545 572468 (Est: 2468)

Cyfeiriad: Cyngor Sir Ceredigion
D/o Hannah Rees
Swyddog Llywodraethu
Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. A yw'r rheoliadau drafft yn glir?

Ydyn, mewn perthynas â'r hyn maent yn ymdrin ag ef, ond nid ydynt yn ddigon cynhwysfawr.

Nid yw'r rheoliadau drafft yn ddigon clir ynghylch eu nodau pennaf, er enghraifft, p'un ai'r nod yn y dyfodol yw darparu pwerau pellach i gynghorau cymuned. Hefyd, does dim cyfeiriad at fuddiannau'r PCC, ac mi ddylai'r rheiny gael eu cynnwys. Mae 'na rai gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y sector preifat hyd yn hyn, felly a ragwelir y bydd sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn cydweithio?

Mae yna werth posib i'r rheoliadau drafft, ond maent hefyd yn aneglur ynghylch y cyfyngiadau i'r PCC e.e. petai gan gynghorau cymuned broblemau llywodraethu.

Mi allai rhoi gormod o gyfleoedd i Gynghorau Cymuned achosi problemau, ond mae Cynghorau Cymuned a Phrif Gynghorau'n delio ag arian cyhoeddus ar ryw ffurf, felly mae angen lefel o gyfrifoldeb ac atebolrwydd, a dylid gosod hwnnw yn y rheoliadau drafft.

Mae'n debygol y bydd llai o arian o du llywodraethu yn y dyfodol, felly mi all y PCC gael ei weld fel mecanwaith ar gyfer masnachu er mwyn codi arian yn lleol, sy'n darparu cyfleoedd i gadw cyfleusterau ar agor (er bod mentrau cymunedol bob amser wedi bodoli, felly mewn ffordd, rydym bron â mynd yn ôl i gyfnodau mewn

hanes pan oedd disgwyl i gynghorau cymuned wneud mwy). Fodd bynnag, mae'n anodd deall o'r rheoliadau drafft presennol sut y byddai Cynghorau Cymuned yn defnyddio'r PCC yn ymarferol.

Dylai'r rheoliadau drafft hefyd, er enghraifft, fynd i'r afael â phroblemau llywodraethu, megis petai'r Cyngor Cymuned am sefydlu cwmni cyfyngedig gyda chyfarwyddwyr, neu Bartneriaeth gyda phartneriaid, sut i ddelio ag unrhyw wrthdrawiad buddiannau posib rhwng rolau a chyfrifoldebau (a beth os oes yna wrthdaro rhwng cynghorau cymuned â chynghorau sir?)

2. **A yw'r gofynion yn y rheoliadau drafft, mewn perthynas â'r achos busnes, yn ymdrin â'r pethau cywir?**

Ydyn, ond fel uchod, nid ydynt yn ddigon cynhwysfawr (gweler sylwadau uchod am fuddiannau'r PCC, ei gyfyngiadau ac agweddau ymarferol).

A oes unrhyw faterion eraill y dylai fod yn ofynnol i'r achos busnes eu cynnwys?

Dylai Pwynt 1 o'r Achos Busnes gynnwys 'buddiannau' yn ogystal â nod ac amcanion, i egluro'r angen i ymarfer y pŵer.

Yn ogystal ag unrhyw risgiau cysylltiedig, asesiad o ddifrifoldeb, a chamau lliniaru, dylai'r achos busnes gynnwys sut a pham y daethpwyd i'r casgliad bod y nodau, amcanion (a buddiannau) yn gorbwyso'r risgiau.

Dylai'r achos busnes gynnwys cyfeiriad at y buddiannau, cymwyseddau gofynnol ar gyfer defnyddio'r PCC. Ar hyn o bryd ymddengys bod y rheoliadau drafft yn awgrymu dull 'un ateb sy'n addas i bawb', ac efallai na fydd hwnnw'n gweithio ar lefel ymarferol.

Dylid hefyd cynnwys yr angen i ail-asesu ac adolygu'r achos busnes.

3. A ddylai'r rheoliadau nodi pwy ddylai gymeradwyo'r achos busnes? Os felly, pwy ddylai wneud hynny?

Na, oherwydd dylai hynny fod yn fater mewnol, ond mi fyddai o gymorth i nodi a ydy defnyddio'r PCC yn swyddogaeth Weithredol neu'n swyddogaeth Gyngor, a dylid nodi'r lefel o ran gwneud penderfyniadau.

Dylai'r corff sy'n ariannu'r cwmni gymeradwyo'r achos busnes. Hefyd, os gwneir cais am grantiau, er enghraifft, cynllun grant sy'n cael ei redeg gan y Prif Gyngor, dylai'r Prif Gyngor gymeradwyo'r achos busnes. Yn ogystal, dylid rhoi ystyriaeth i beth sy'n digwydd os bydd y cwmni'n mynd yn fethdalwr h.y. pwy sy'n gyfrifol am unrhyw ddyled, a oes yna ofyniad i gadw cofnodion? Mae angen i'r rheoliadau nodi'n glir beth a ddisgwylir o'r dechrau (ac amlinellu'r senarios ar gyfer strwythur y cwmni – a yw'n elusen, ymddiriedolaeth, cwmni?). Beth sy'n digwydd os ydy'r Cyngor Cymuned eisoes yn cyflawni rôl/gwasanaeth, sut fydd hyn yn gweithio/cyd-fynd â'r pŵerau newydd?

4. Beth yw eich barn am y dull arfaethedig o gymhwyso'r rheoliadau drafft at gynghorau cymuned cymwys?

Mae'r amodau yn y Rheoliadau drafft yn glir. Ni chytunir y dylai Cynghorau Cymuned gael yr un pwerau â phrif gynghorau. Mae yna risgiau cynhenid ynghlwm â gwarchod arian cyhoeddus, yn yr ystyr bod nifer o gynghorau wedi dangos na allant reoli eu cyfrifon eu hunain, gan arwain at adroddiadau budd cyhoeddus gan Archwilio Cymru. Mae'n bosib na fydd dwy farn ddiamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unig (A.30 (4) Deddf 2021) yn sicrwydd digonol. Mae'n bosib na fydd y cymhwyster gofynnol ar gyfer clercod (A.30 (3) Deddf 2021) yn ddigonol.

Mae angen eglurder ynghylch strwythur a llywodraethiant y Cwmni masnachu (e.e. h.y. diffiniad o'r Cwmni, p'un ai yw'n gyfyngedig at ddibenion atebolrwydd (sut i warchod arian cyhoeddus), pwy all fod yn gyfarwyddwr (a oes rhaid iddynt fod yn Gynghorydd Cymuned), gwrthdrawiad buddiannau rhwng rôl gyda'r cyngor cymuned/Cwmni/trydydd parti e.e. contractwyr ar gyfer gwaith y Cwmni a sut y bydd gweithio gyda thrydydd parti'n effeithio ar ofynion llywodraethu/strwythur y Cwmni.

Gweler y sylwadau uchod hefyd ynghylch cynghorau cymuned. Hefyd, os bydd cynghorau cymuned yn penderfynu defnyddio'r PCC, byddai angen rhai mesurau diogelu/sicrwydd e.e. sicrhau bod eu cyfrifon mewn trefn ac ati, am mai cyllid cyfyngedig sydd gan gynghorau cymuned. Ar y llaw arall, mae rhai cynghorau cymuned mwy o faint cymwys iawn ar gael, felly ni fydd yr un ateb yn siwtio pawb efallai.

5. A ydych yn cytuno y dylid awdurdodi cynghorau cymuned sy'n gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol hefyd. Os nad ydych, pam?

Na. Gweler yr ateb i C4 uchod.

Mae'r sylw canlynol yn y ddogfen ymgynghori mewn perthynas â chynghorau cymuned hefyd yn aneglur:
"*Mi allai'r anghysondeb hwn arwain at ddryswch a rhwystro mentergarwch a gwelliannau i'r gwasanaeth".*

Fel y nodir uchod, mae yna bosibilrwydd o wrthdrawiad buddiannau, a ph'un ai oes yna benderfyniad hyd braich o ran gwaith comisiynu, a ph'un ai all cynghorau cymuned, drwy fentrau eraill, 'fasnachu' beth bynnag? Dylid hefyd rhoi ystyried i sefyllfaoedd lle gallai cynghorau cymuned fod yn cystadlu â chynghorau sir, a ph'un ai allai cynghorau cymuned ddod at ei gilydd i rannu gwasanaeth?

6. A ydych yn cytuno y dylai prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys fod yn ddarostyngedig i'r un amodau wrth fasnachu yn eu swyddogaethau arferol ac arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol?

Ydyn, mewn perthynas â phrif gynghorau. Ni chytunir y dylai Cynghorau Cymuned gael y naill bŵer na'r llall (Gweler Ymateb i Gwestiwn 4 uchod).

Gellid rhoi ystyriaeth i Gynghorau Cymuned yn cwrdd â'r un trothwy cyllideb â'r un sydd ganddynt ar gyfer cynlluniau Llesiant lleol dan A.40(1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Nid yw Cyngor Cymuned dan ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol tuag at gwrdd â'r amcanion lleol a nodir yn y cynllun llesiant lleol sy'n effeithio ar ei ardal, oni bai bod ei incwm neu wariant gros yn £200,000 o leiaf am bob un o'r tair blynedd ariannol flaenorol cyn y flwyddyn y cyhoeddir y cynllun llesiant lleol.

Dylid cael gofynion/trothwy cymhwyso ar gyfer cynghorau cymuned cymwys, gan gynnwys mesurau diogelu cymhwysedd, a dylid cael cynlluniau yn eu lle ar gyfer pob posibilrwydd e.e. a allai rhai cynghorau cymuned llai ddod at ei gilydd i gwrdd â'r trothwy o £200,000 er enghraifft, i ganiatáu i'r pŵer fod yn agored i bob cyngor cymuned, ond gyda mesurau diogelu digonol yn eu lle.

7. A fydd gosod yr amodau wedi'u diweddaru, a nodir yn y rheoliadau drafft, ar awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol, pan fyddant yn arfer eu pŵer i fasnachu yn eu swyddogaethau arferol, yn arwain at unrhyw ganlyniadau nad ydym wedi'u hystyried?

Tybir y bydd y cyrff hyn yn cael yr un pwerau â phrif gynghorau.

Dylid trin Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yr un fath â phrif gynghorau, gan ddarparu cyfleoedd cyfartal i'r cyrff hyn ymarfer y PCC.

8. Er mwyn mireinio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu sylwadau ar y costau amcangyfrifedig i awdurdodau sy'n gysylltiedig â pharatoi achos busnes. Byddem hefyd yn croesawu amcangyfrif o unrhyw gostau a allai ddeillio o'r gofyniad i adennill costau oddi wrth y cwmni.

Amcangyfrifir £15,000 fesul achos busnes ar gyfer Cyngor Sir, ond bydd y costau'n dibynnu ar y manylder sydd ei angen ar gyfer achos busnes penodol; gall fod yna dreuliau/costau'n gysylltiedig â sefydlu'r achos busnes, ar ben y costau amcangyfrifedig. Gall costau achosion busnes y sector preifat fod yn wahanol i rai achosion busnes y sector cyhoeddus, a gall fod angen elw masnachu sylweddol i gwrdd â'r costau sefydlu hyn.

9. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r rheoliadau drafft neu'r cynnig mewn perthynas â'r gorchymyn masnachu diwygiedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Dim effeithiau. Bydd safonau'r Gymraeg yn berthnasol yn ôl yr arfer.

10. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y rheoliadau drafft arfaethedig neu'r cynnig mewn perthynas â'r gorchymyn masnachu diwygiedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 9 uchod.

11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny :

Mae mater A.36 o ganllawiau statudol Deddf 2021 yn hollbwysig o ran arwain cynghorau yn y defnydd o'r pwerau newydd, a'r cyfyngiadau a osodwyd yn A.24-27 o Ddeddf 2021, yn arbennig y gwahaniaeth rhwng awdurdod yn masnachu yn eu swyddogaethau arferol neu yn ymarfer y pŵer cyffredinol.
O ran adennill arian sy'n ddyledus gan y cwmni, mae hyn yn gwneud synnwyr yn nhermau gwarchod arian cyhoeddus.
Beth am ffurfio partneriaeth gyda rhanddeiliaid lleol neu awdurdodau eraill – pa drefniadau llywodraethu fydd yn berthnasol (os nad y prif gyngor/cyngor cymuned yn unig ydoedd)?
A ganiateir cwmnïau cyfyngedig?
Sut fydd unrhyw atebolrwydd pan fydd cwmni'n mynd i ddwylo'r derbynnydd yn cael ei ddatrys?

A all Aelodau neu Brif Swyddogion yr Awdurdod Lleol fod yn gyfarwyddwr a/neu'n ysgrifennydd cwmni?

O ran defnydd y Cynghorau Cymuned o Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn nhermau sicrwydd risg, gall unrhyw sgil-effaith neu golled ariannol a achosir gan Gynghorau Cymuned gael effaith ddilynol ar y Sir gyfan, Llywodraeth Cymru ac enw da'r Cyngor Sir.

Dywedodd Sean Hanson, Prif Weithredwr Partneriaethau Lleol "*A well-defined business case should sit at the heart of any council-owned company. This will ensure that the use of public resources will not distort a functioning market and challenge market-tested assumptions to avoid 'optimism bias'.*
Once established, councils should continually re-assess the business case and challenge the ongoing existence and relevance of their entities and the extent to which their objectives remain relevant over the company's lifetime.
It can be difficult for councils to balance competing drivers, such as allowing a company the freedom to manage activities without interference, and ensuring that it is held to account for its actions."

Mae yna faterion cysylltiedig na aethpwyd i'r afael â nhw megis:

- Beth yw'r trefniadau disgwyliedig o ran paratoi cyfrifon y cwmni ac archwiliad annibynnol o'r cyfrifon (os nad yw wedi'i gynnwys yn Natganiad Cyfrifon blynyddol y Cyngor)?
- A ellir ffurfio'r cwmni ar y cyd / mewn partneriaeth â chyrff eraill gan ddefnyddio'r pŵer?
- Sut fydd contractau'n cael eu dyfarnu (gan y Cyngor neu'r cwmni?) – a fydd y cwmni'n ddarostyngedig i Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor?
- Sut fydd TAW yn cael ei drin? Yn amodol ar gyfrif y Cyngor? Neu a fydd y cwmni'n gorfod cofrestru ar wahân gyda CThEM?
- Beth am staff sy'n cyflawni tasgau ar ran y cwmni? – wedi'i cyflogi gan y Cyngor neu'r cwmni? A fydd angen i'r Cyngor ystyried trefniadau TUPE?
  Dylai'r prif Gyngor adennill unrhyw arian sy'n ddyledus, oherwydd dylai'r Cwmni gael ei drin fel corff annibynnol.
  Hefyd, o ran defnydd y Cynghorau Cymuned o'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, efallai y dylai eu hachosion busnes gael eu cymeradwyo gan eu Cynghorau Sir perthnasol?

Fel y nodwyd uchod, dylid darparu eglurder ar amcanion y rheoliadau, buddiannau'r PCC, sut y gallai sefydliadau cyhoeddus a phreifat gysylltu â'i gilydd, eglurder pellach ar y cyfyngiadau ar y PCC, materion llywodraethu, atebolrwydd, strwythur cwmnïau (gan gynnwys pan fydd cwmni'n mynd yn fethdalwr/cyfrifoldeb am ddyledion), gwaith a wneir gan Gynghorau Cymuned ar hyn o bryd, gwrthdrawiad buddiannau/safbwyntiau rhwng Prif Gynghorau a Chynghorau Cymuned. Wrth gwrs, mae gan Gynghorau broses yn ei lle'n barod ar gyfer datgan buddiannau a dilyn y cod ymddygiad, ac mae mesurau diogelu ar gael o ran atebolrwydd, megis ar gyfer ymddygiad byrbwyll, ond mi fyddai o gymorth i ddarparu arweiniad pellach er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ddwyn achos cyfreithiol/gwrthdaro.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, nodwch hynny yma: